**CAW27 UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Sefydliad: UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Cefnogwn y mwyafrif helaeth o egwyddorion a nodau'r Bil. Maent yn ymgorffori'r agweddau deddfwriaethol o'r diwygiadau cyffrous a llawn potensial sydd o'n blaenau. Mae'r Bil yn gwneud hynny mewn dull cryno sy'n taro'r cydbwysedd cywir, ym marn UCAC, rhwng gosod fframwaith cadarn a chyson, a chynnig hyblygrwydd i amrywio dros amser.

Fodd bynnag, mae gennym bryder difrifol iawn ynghylch un o egwyddorion sylfaenol y Bil, sef cynnwys Saesneg yn y rhestr o elfennau gorfodol/mandadol, a'r angen canlyniadol i greu darpariaeth ynghylch datgymhwyso Saesneg hyd at 7 oed.

Yn Adran 3(2), rydym yn gwbl gyffyrddus â chynnwys 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb', 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' a 'Chymraeg' fel elfennau sy'n fandadol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn wir, rydym yn gefnogol i hynny.

Fodd bynnag, nid ydym yn fodlon bod Saesneg yn cael ei gynnwys yn y rhestr.

Mae Saesneg yn elfen fandadol de facto yn y cwricwlwm presennol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen ac mi fyddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil a fyddai'n ail-greu'r sefyllfa honno yn debygol o fod yn dderbyniol gennym. I fod yn glir, nid ydym yn gwrthwynebu statws gorfodol Saesneg fel pwnc o Flwyddyn 3 ymlaen.

Yr hyn sy'n gyfan gwbl annerbyniol yw'r ffaith bod cynnwys Saesneg yn 3(2) yn ei wneud yn elfen ddiofyn ar draws y cwricwlwm gan gynnwys yn yr ystod oedran sy'n cyfateb i'r Cyfnod Sylfaen, sef Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 (3 i 7 oed) – sy'n estyniad clir o'r sefyllfa bresennol.

Mae gosod Saesneg fel elfen ddiofyn, tra'n parchu ymrwymiad y Gweinidog y bydd 'y cwricwlwm newydd yn parhau i alluogi ysgolion a lleoliadau, fel y Cylchoedd Meithrin, i drochi plant yn y Gymraeg yn llwyr' [Datganiad ar barhad trochi plant yn y Gymraeg , Chwefror 2019] wedi arwain at yr angen i greu opsiwn i 'ddatgymhwyso elfen fandadol' (Adrannau 26 a 27).

Mae sawl rheswm dros wrthwynebu'r ymagwedd hon at statws y Saesneg a'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd:

1. Mae gosod y Saesneg fel elfen ddiofyn ar draws y cwricwlwm gan orfod cymryd camau penodol ychwanegol i ddatgymhwyso er mwyn sicrhau darpariaeth drochi i blant hyd at 7 oed yn annerbyniol ar sail egwyddor. Nid yw'n dderbyniol bod y naill opsiwn yn ddiofyn a'r llall yn gofyn am gamau ychwanegol pellach i amrywio neu i optio allan o'r default.

2. Mae gennym amheuaeth a yw'n gwbl gyfreithlon, gan nad yw trefn o'r fath yn gydnaws â'r ymrwymiad ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dan y drefn arfaethedig, mae addysg drochi yn y Saesneg yn cael ei gwarantu; mae addysg drochi yn y Gymraeg yn ddibynnol ar benderfyniadau ychwanegol lleol.

3. Mae'n rhoi neges gwbl glir bod addysg drochi'n eithriad ac nid yn norm – a hynny ar yr union adeg pan mae polisi Llywodraeth Cymru yn anelu at greu "amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o … gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb…" [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, t.7]. Mae'r strwythur a gynigir yn y Bil yn mynd benben â'r nodau hynny.

4. Nid oes gofyn am gamau ychwanegol o'r fath ar hyn o bryd er mwyn sicrhau darpariaeth drochi yn y Cyfnod Sylfaen, felly mae'n waethygiad amlwg ar y sefyllfa bresennol ac yn ychwanegu at ofynion biwrocrataidd diangen yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol.

5. Mae'n debygol iawn mai sgil effaith ymarferol rhoi cyfrifoldeb yn nwylo penaethiaid, cyrff llywodraethu a darparwyr addysg feithrin dros benderfynu ynghylch datgymhwyso fydd lleihau ar faint o addysg drochi hyd at 7 oed sy'n digwydd o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Yn syml, mae'n codi cwestiwn nad yw'n cael ei godi ar hyn o bryd - neu sy'n

cael ei setlo gan sefydliadau neu fudiadau mwy arbenigol megis awdurdodau lleol neu Mudiad Meithrin.

Mae’r ddarpariaeth yn caniatáu i’r datgymhwyso greu “llai o addysgu a dysgu Saesneg neu ddim addysgu a dysgu Saesneg o gwbl i’r dysgwyr hyn” [Nodiadau Esboniadol, Memorandwm Esboniadol, t. 182]. Gellir rhagweld, â phrin ddim amheuaeth, y bydd cyrff ar lefel leol yn barnu bod angen addysg yn y ddwy iaith er mwyn sicrhau bod y plant yn dod yn ddwyieithog - tra ei fod yn gwbl gydnabyddedig ymhlith arbenigwyr yn y maes bod trochi’n hollbwysig i gaffael unrhyw iaith. Mae’n hynny’n fwy gwir byth mewn sefyllfa, fel yng Nghymru, pan fydd dwy iaith yn cydfyw’n gyfochrog, ond bod un ohonynt yn iaith leiafrifol y mae’n anodd iawn ‘ymdrochi’ ynddi yn y gymdeithas ehangach; rhaid mynd ati’n fwriadol i greu’r amgylchiadau ble mae modd trochi. Mae strategaeth ‘Cymraeg 2050’ Llywodraeth Cymru’n cydnabod hynny “Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd... Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd sector y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.” (t.21)

Byddai unrhyw leihad - hyd yn oed anfwriadol - i’r amgylchiadau, eisoes cyfyngedig hynny o drochi hyd at 7 oed, yn peryglu’n wirioneddol gallu’r system addysg i greu dinasyddion dwyieithog. Yn hynny o beth, mi fyddai’n debygol o fod yn wirioneddol ac yn uniongyrchol niweidiol i nodau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

6. Erbyn hyn mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynllunio’n strategol ar lefel awdurdodau lleol, gyda phroses monitro gan Lywodraeth Cymru. Mi fyddai gosod pŵer yn nwylo darparwyr unigol, boed yn ysgolion neu’n ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn tanseilio grym strategol Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu) i raddau helaeth iawn – a hynny ar ôl buddsoddiad ac ymdrechion sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac eraill dros y blynyddoedd diwethaf i gryfhau’r system honno.

Rydym yn gryf o’r farn felly nad yw’r drefn a amlinellir yn y Bil yn dderbyniol o gwbl, ar sail egwyddorol, cyfreithiol ac ymarferol. Awgrymwn mai’r ffordd rhwyddaf a symlaf i ddatrys y broblem yw i ddileu 'Saesneg' o’r rhestr o elfennau mandadol ar draws y cwricwlwm yn Adran 3(2). Ni fyddai hynny’n niweidiol i’r Saesneg fel pwnc gan ei fod eisoes yn fandadol o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad ‘Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.’

**1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Ydym.

## 2. Gweithredu'r Bil

**2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Nodwn fod y rhan fwyaf o'r prif newidiadau 'fframweithiol' i'r cwricwlwm yn cael eu crybwyll naill ai ar wyneb y Bil (e.e. y Pedwar Diben, y Meysydd Dysgu a Phrofiad, y sgiliau trawsgwricwlaidd, a'r elfennau mandadol, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

Ymhellach, mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud tri chod – Cod yr Hyn sy'n Bwysig, Cod Cynnydd, a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i fynd i'r afael â materion penodol mewn mwy o fanylder nag sy'n addas ar wyneb y Bil.

Fodd bynnag, nodwn – a phryderwn – nad oes unrhyw gyfeiriad ar wyneb y Bil, nac unrhyw ddarpariaeth o ran darparu Cod (na chanllaw, nac is-ddeddfwriaeth) fyddai'n ymgorffori'r uchelgais a nodir yn y Memorandwm Esboniadol (3.140), a dogfennau polisi eraill Llywodraeth Cymru: "mae gweddnewid y ffordd rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwr, er mwyn i o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, yn un o'r prif newidiadau gweddnewidiol y bydd eu hangen yn y sector addysg statudol er mwyn gwireddu'r weledigaeth".

Deallwn fod y continwwm yn cael ei ymgorffori yn y Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', ac hefyd y bydd lle i ddarpariaeth o fewn y Cod Cynnydd o safbwynt y cynnydd y disgwylir i ddisgyblion ei wneud ar hyn y continwwm.

Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai hynny'n cwmpasu hyd a lled yr uchelgais o ran sicrhau datblygiad y sector cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y bwriad i sicrhau y darperir cyfran gynyddol o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn pob ysgol ledled Cymru, na lle canolog y continwwm newydd yn hynny o beth.

Rydym yn gryf o'r farn bod angen cyfeiriad ar wyneb y Bil at y newid sylfaenol hwn yn yr ymagwedd at y cwricwlwm – yn yr un modd â'r cyfeiriadau at y newidiadau sylfaenol eraill. Yn ogystal, dadleuwn y byddai'n briodol darparu ar gyfer Cod sy'n ymwneud â'r materion hyn yn benodol ac yn fanwl er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector addysg ar bob lefel ynghylch y disgwyliadau yn y maes hwn.

**2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Nac ydy.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Rydym yn pryderu'n ddifrifol fod yr ymdrechion llawdrwm yn y Bil i greu hawl i addysg drochi hyd at 7 oed yn mynd i arwain at ganlyniadau anfwriadol sylweddol sy'n gwrthdaro'n uniongyrchol â nodau Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yn ei strategaeth 'Cymraeg 2050' a'r Rhaglen Waith sy'n cyd-fynd â hi, yn ogystal â Chynllun Gweithredu 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl', a Chynllun Gweithredu 'Y Gymraeg mewn Addysg' sy'n cyd-fynd ag e.

Rydym wedi amlinellu'r rhesymau dros ein gwrthwynebiad yn fanwl dan gwestiwn 1.2 uchod. Fodd bynnag, o ran natur y canlyniadau anfwriadol, dyma'r hyn rydym yn ei rhagweld – a hynny â chryn hyder:

Ysgolion a darparwyr yn gorfod cymryd camau penodol i ddatgymhwyso o Saesneg gorfodol cyn 7 oed

↓ [YN ARWAIN AT]

Rhai ysgolion a darparwyr yn penderfynu peidio datgymhwyso, neu ddatgymhwyso dim ond yn rhannol

↓ [YN ARWAIN AT]

Llai o addysg drochi hyd at 7 oed, neu addysg drochi lai effeithiol

[hynny yw, lleihau, nid ehangu, darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg - un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050]

↓ [YN ARWAIN AT]

Llai o ddysgwyr yn mynd ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg, neu ddysgwyr yn ei chael hi'n anoddach i ymdopi ag addysg cyfrwng Cymraeg

[hynny yw, ei gwneud hi'n llawer anoddach, yn hytrach na hwyluso, creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus - un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050]

↓ [YN ARWAIN AT]

Llai o ddilyniant i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, felly llai o sgiliau iaith yn bwydo mewn i weithluoedd - gan gynnwys y gweithluoedd addysg, iechyd, gofal cymdeithasol

[hynny yw, ei gwneud hi'n llawer anoddach, yn hytrach na hwyluso, datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle - un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050]

↓ [YN ARWAIN AT]

Lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a lleihad yn y defnydd o'r Gymraeg

[sef dau o brif themâu Cymraeg 2050]

Rydym yn gryf o'r farn felly nad yw'r drefn a amlinellir yn y Bil yn mynd i sicrhau'r canlyniadau y tybir ac a fwriedir. Awgrymwn mai'r ffordd rwyddaf a symlaf i osgoi'r canlyniadau anfwriadol yw dileu 'Saesneg' o'r rhestr o elfennau mandadol ar draws y cwricwlwm yn Adran 3(2). Ni fyddai hynny'n niweidiol i'r Saesneg fel pwnc gan ei fod eisoes yn fandadol o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.'

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae gennym bryder nad yw'r amser a fydd ei angen ar athrawon ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm newydd ar gyfer eu hysgolion wedi'i gyfrifo'n ddigon realistig – a hynny yn y cyfnod yn arwain at ei gyflwyno yn arbennig, ond yn y cyfnod dilynol yn ogystal, ar gyfer adnewyddu a diweddaru.

Er y rhagwelir defnyddio'r rhan fwyaf o'r dyddiau HMS, gan gynnwys y diwrnod blynyddol ychwanegol dros dair blynedd, at bwrpas paratoi ar gyfer y cwricwlwm, nid ydym yn hyderus y bydd hyn yn ddigonol. Am mai amser ar y cyd fydd yn angenrheidiol - hynny yw, ar draws meysydd pynciol, ac ar draws ystodau oedran, mae'n anorfod mai cyfnodau digyswllt sydd dan sylw - nid rhyddhau unigolion yn eu tro.

Mae dirfawr angen cynllunio sut bwriedir i hyn ddigwydd, a chyllidebu ar ei gyfer.

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

-

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

-